



## Ysgol Pentreuchaf

### 31. Polisi Cyfathrebu

#### **Nod**

Mae cyfathrebu effeithiol rhwng yr ysgol a'r cartref yn hanfodol. Mae plant yn llwyddo'n well pan fydd yr ysgol a'r rhieni yn gweithio gyda'i gilydd. Gall rhieni helpu mwy pan fyddant yn gwybod beth mae'r ysgol yn ceisio ei wneud a sut y gallant helpu.

#### **Amcanion**

Byddwn yn cyfathrebu gyda rhieni mewn ffyrdd amrywiol – mae rhai oherwydd gofynion statudol, tra bo eraill yn adlewyrchu yr hyn sydd yn bwysig i ni.

**Cytundeb Cartref Ysgol** – gweler y Polisi perthnasol

**Adroddiadau i Rieni ar gyflawniad eu plant** – gweler y Polisi Asesu

**Gwybodaeth Gwricwlaidd i Rieni yn dymhorol**

#### **Adroddiad blynyddol y Llywodraethwyr i'r Rhieni**

Bydd yr ysgol yn daparu Adroddiad Blynyddol i'r Rhieni ac yn trefnu cyfarfod i'r rhieni gael cyfle i'w drafod yn ystod Tymor yr Hydref. Byddwn yn sicrhau ein bod yn cyflawni gofynion statudol.

#### **Llawlyfr Ysgol**

Caiff y Prosbectws ei ddiweddarau'n flynyddol a'i rannu i bob teulu yn flynyddol (dewis yr ysgol ydyw hyn, ond mae newidiadau yn anorfod ac mae'n bwysig fod POB rhiant yn cael gwybodaeth gyfredol). Byddwn yn sicrhau ein bod yn cyflawni gofynion statudol.

#### **Dogfennau sydd ar gael i rieni**

Mae gan rieni hawl i weld nifer o ddogfennau – polisiau cwricwlaidd, munudau cyfarfodydd Llywodraethwyr, Polisi Codi Tâl, Addysg Rhyw, Iechyd a Diogelwch, Cwricwlwm, Cydraddoldeb Hiliol, Rheoli Perfformiad, Derbyn a Mynediad, Cynllun Gweithredu yn Dilyn Arolygiad ynghŵd â nifer o ddogfennau cenedlaethol ac AALI.

#### **Cyfathrebu gyda'r cartref**

Byddwn yn llythyru gyda'r rhieni yn rheolaidd gan gynnwys pecyn o ffurflenni ar ddechrau gyrfa plentyn yn yr ysgol, ffurflenni blynyddol, llythyrau i'w hysbysu am wahanol weithgareddau, i ofyn am ganiatâd, cyfraniad ariannol, gymorth a.y.y.b. Ceisiwn sicrhau fod llythyrau yn mynd allan mewn da bryd, a'n bod yn cael ymateb gan bob rhiant. Rhaid i ni fod yn agored i ffyrdd newydd o gyfathrebu i'r dyfodol – ffyrdd electroneg a.y.y.b.

Byddwn hefyd yn defnyddio holiaduron achlysurol / ffurflenni gwybodaeth – dechrau gyrfa / blynyddol / nosweithiau rhieni yn dymhorol / mabolgampau / cyngherddau / gweithgareddau cymdeithasol Y Cyfeillion / Darllen Gartref / Darllen Dyddiol / polisi drws agored – ceisio siarad ar y ffôn neu weld rhieni yn syth bin / ar ddechrau neu ddiwedd y dydd a.y.y.b. / os bydd plentyn yn absennol a ninnau heb gael gwybod pam, byddwn yn cysylltu gyda'r cartref cyn 9.10 a.m.

#### **Casgliad**

Ein bwriad yw sicrhau cyfathrebu clir ac effeithiol gyda rhieni a'r gymuned ehangach. Mae cyfathrebu effeithiol yn ein galluogi i rannu ein hamcanion a gwerthoedd i sicrhau cefnogaeth i'r disgyblion a'r ysgol.

**Adolygir: Chwefror 2017**

**Arwyddwyd:** \_\_\_\_\_, Cadeirydd y Llywodraethwyr

**Dyddiad:** \_\_\_\_\_